

Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fercher, Mehefin 24ain 2020 drwy gyfrwng Zoom oherwydd cyfyngiadau argyfwng Covid-19. Yn bresennol oedd Geraint Jones (cadeirydd), Gwynedd Jones, Jean Roberts, Arwel Davies, Rhys Richards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwynfryn Williams, Huw Charles, Geraint Davies a'r Cyng. Elwyn Edwards.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mai a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-

i) Roedd y ffordd wedi cael ei farcio ar gyfer trwsio'r culfet ger Beudy Newydd, Parc.

ii) Roedd y safle ger Pentrefelin wedi cael ei wneud yn ddiogel dros dro ac roedd taflen waith wedi cael ei baratoi er mwyn gosod peipen a cherrig newydd yno'n fuan.

iii) Roedd y ffordd ger mynedfa Rafael, Parc wedi cael ei drwsio dros dro ac roedd bwriad i osod tar parhaol yno yn fuan.

iv) Cafwyd cadarnhad fod y ffordd gyferbyn a Ty'n Ffordd, Rhyduchaf am gael ei thrwsio cyn gynted a phosib.

iv) Gohebiaeth.

Nid oedd unrhyw ohebiaeth i'w gyflwyno.

v) Ceisiadau Cynllunio.

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol a chytunwyd i'w cefnogi:-

NP5/72/246- Amnewid to fflat yr estyniad ochr am do brig, gosod ffenest ddormer newydd a chodi garej ar wahan. Y Bragdy, Llanycil.

NP5/72/T102A - Adeiladu estyniad blaen a throsi adeiladau fferm ynglwm i fod yn rhan o'r annedd. Cerrig Llwydion, Llanycil.

vi) Materion Ariannol

a) **Ffurflen Archwiliad Blynnyddol.**

Yn dilyn archwiliad trwyadl o gyfrifon y Cyngor, derbyniwyd adroddiad yr archwilwyr mewnol. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd mynegwyd eu sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu'r Cyngor Cymuned ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019-20. Cytunwyd yn unol â gofynion y datganiadau Cyfrifyddu a Llywodraethu yn y ffurflen Archwiliad Blynnyddol. Cytunodd y clerc wneud trefniadau i gwrdd gyda'r cadeirydd i arwyddo'r ffurflen ac yna y byddai'n ei hanfon ymlaen i'r archwilwyr allanol.

b) **Cynllun Pensiwn Gweithle.**

Cafwyd cadarnhad gan y clerc ei bod wedi cwblhau'r ail ddatganiad cydymffurfio.

c) **Ceisiadau ariannol**

Trafodwyd y ceisiadau ariannol a garwyd ymlaen o'r cyfarfod diwethaf a chytunwyd i beidio newid y drefn arferol o drafod ceisiadau a rhannu'r arian ym mis Mawrth.

vii) Unrhyw Fater Arall.

a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r materion canlynol ymlaen i Gyngor Gwynedd:-

i) Parciau chwarae Rhyduchaf a Parc – angen torri'r glaswellt yn y ddau safle.

- ii) Cais am fin baw cŵn i bentref Parc.
- iii) Nifer o gamfeydd ar y llwybrau cyhoeddus o gwmpas ardal Parc angen eu trwsio. Gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau hefyd pan fod y llwybr troed o ffridd ben Fondro i Stadros, Parc dal ar gau.
- iv) Y ffordd ger Ty'n y Cae yn anwastad iawn ac angen sylw.
- v) Nodwyd fod y contractwr a benodwyd eleni i dorri gwrychoedd yr ardal wedi gwneud gwaith taclus iawn.

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Medi 8fed am 8.00 y.h. drwy gyfrwng “Zoom”.